COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 22AIN IONAWR 2018 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd J Pearson
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; D. Bradley, C. Brockley, Mrs G. Campbell, J. Davies, Mrs H. Fleet; C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M Jones; A. Kealey, A Khan, A Mason, C. Matthews, M. Pickard, P Richards, M. Tasker, S Williams.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Cynghorydd Sir: Brian Cossey.

301/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr B. Barton, Mrs H Meredith, T Pearson, Mrs K. Swindon ag M. Worth, a hefyd y Cynghorydd Sir - Cheryl Carlisle.

302/17 Cyhoeddiadau:

Rhoddodd y Maer cyhoeddiad byr am ddau ddigwyddiad sydd ar ddod ar gyfer Elusen y Maer: Sioe Adloniant y Maer, wedi ei drefnu ar hyn o bryd ar gyfer dydd Mercher 9fed Mai yn Theatr Colwyn a Thwmpath Dawns Elusennol i'w gynnal yng Nghlwb Pêl-droed Bae Colwyn ar ddydd Gwener 16eg Mawrth. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r dyddiadau hyn a chefnogi'r digwyddiadau os yn bosibl.

Gofynnodd hefyd i'r Aelodau ymateb i ddwy neges e-bost a anfonwyd gan y Clerc yn ddiweddar, un mewn perthynas â'r ymweliad i'r swyddfeydd newydd yn Ffordd Coed Pella yn Chwefror ar llall am y 'Diwrnod Creu Gweledigaeth' arfaethedig.

303/17 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.

Fe nodwyd bod nifer o Aelodau'r Pwyllgor Polisi a Chyllid wedi datgan eu cysylltiadau yn y ceisiadau am grantiau mawr (cyfeirir atynt yn y Cofnodion) a byddai'n rhaid eu hail-ddatgan os oedd yr aelodau eisiau trafod unrhyw geisiadau / argymhellion am y grantiau mawr.

304/17 Ymwelwyr:

a) Fe nodwyd bydd yr Arolygydd Kelly Isaacs, Heddlu Gogledd Cymru yn dod i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad ar faterion plismona lleol.

b) Croesawyd y Cynghorydd Sir, Brian Cossey i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a gwahoddwyd iddo gyflwyno unrhyw adroddiad. Diolchodd y Cynghorydd Cossey i'r aelodau am y cyfle o gael dod atynt i'w hannerch a mynegodd ei siom nad oedd mwy o Gynghorwyr Sir Conwy wedi manteisio ar y cyfle i fod yn bresennol ac i wella'r ymgom rhwng y ddwy

sector o lywodraeth leol. Yna manteisiodd ar y cyfle i roi gwybodaeth i Aelodau'r Cyngor am y penderfyniadau cyllidol sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor Sir ar hyn o bryd. Dosbarthwyd gwybodaeth am ragolygon gwariant ag incwm ar gyfer 2018/19 a'r angen i ddynodi mwy o arbedion o £387,000 ar ben y swm o £10,196,000 a ddynodwyd eisoes yn Nhachwedd. Mae angen hwn, ynghyd a'r cynnydd o 5% a ragwelir yn y Dreth Cyngor, i gyfarfod a'r pwysedd cyllidol oherwydd codiadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol, achosion busnes newydd i wasanaethau statudol a gostyngiad yn y cyfraniad gan Lywodraeth Cymru (yn cynnwys colli rhai grantiau penodol).

Cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb yn dilyn cyflwyniad y Cynghorydd Cossey, yn cynnwys: pryderon am rai teuluoedd yn gorfod brwydro i dalu'r cynnydd o 5%; a ellir gostwng lwfansau'r aelodau (cytunwyd yn genedlaethol gan gorff annibynnol); nifer isel iawn o ymholiadau / gwrthwynebiad i godiadau yn y blynyddoedd blaenorol; dyletswydd statudol i gyflwyno rhai gwasanaethau, e.e. casglu sbwriel (ond nid ar 'lefel platinwm' pan fyddai gwasanaeth arian yn ddigonol); codiad cyflog i uwch swyddogion.

Yna gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau cyffredinol, nid yn ymwneud a'r gyllideb, a chafwyd cwestiynau am yr ymgynghoriad diweddar ar wasanaethau bws ac am y gwaith sydd wedi dechrau ar osod clociau parcio ar y Promenâd a pha mor bell fydd hyn mynd.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Cossey am fod yn bresennol ac am ei adroddiad oedd yn llawn gwybodaeth, ac yna gadawodd y cyfarfod.

305/17 <u>Cofnodion:</u>

a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Rhagfyr 2017.***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 12fed Rhagfyr 2017.
ii Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 3ydd Ionawr 2018 (Drafft)
iii Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 9fed Ionawr 2017 (Drafft).

306/17 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>

a) 251/17(a) - Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynghorau Cymuned a Thref:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar, yn dilyn ei chyfarfod gyda thri aelod o'r Panel a gynhaliwyd ar 19eg Ionawr. Fe nodwyd bod aelodau'r Panel Adolygu a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ymweld â nifer o Gynghorau o wahanol faint, mewn gwahanol fannau o Gymru. Y nod yw darganfod ym mha ffordd y maent yn gweithredu, eu cyfrifoldebau, a fu cystadlu am seddau yn yr etholiadau diwethaf, a yw'r aelodau yn dod o gefndiroedd gwahanol, a oes unrhyw brosiectau arloesol ar y gweill, faint o gydweithredu sydd rhwng cynghorau cyfagos ayb.

Yna rhoddodd y Maer, y Cynghorydd J. Pearson, adroddiad byr ar lafar am y sesiynau torri allan a gynhaliwyd mewn cyfarfod diweddar o Gymdeithas Clercod Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, a fu'n edrych ar rhai o'r pethau oedd yn bosibl, fel y rhai a amlinellwyd ym Mhapur Gwyn 2015 cyn i'r adolygiad hyd flwyddyn cael ei gyhoeddi. Fe nodwyd y pryder a ddatganwyd am y bygythiad o uno gorfodol, llawer llai o gynghorau, cynghorau mwy ac effaith hyn ar ardaloedd cefn gwald yn arbennig.

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau a disgwyl am gam nesaf yr adolygiad.

b Cofnod 253/17 - Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (CIC):

Cyflwynodd y Clerc ymateb CIC am y swyddogaeth a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig cyfle iddynt ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon gwahoddiad i gynrychiolydd o'r CIC i ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

c. ***Penderfynwyd <u>cadarnhau argymhellion</u> y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:***

i. ***Cofnod 263/17(b)(iii) - Meinciau Newydd*: *Cymeradwyo cais am £820 o'r arian wrth gefn i brynu dwy fainc newydd ar gyfer 'Tucky Park', Ffordd yr Eglwys.***

ii. ***Cofnod 281/17(a) - Grantiau Bach: Cymeradwyo taliad i ymgeiswyr A ag C:***

iii. ***Cofnod 281/17(b) - Grantiau i Ddigwyddiadau 2018/19: Cymeradwyo'r grantiau am ddigwyddiadau, manylion amdanynt yn Atodlen D o'r Cofnodion, a chadw cyfanswm o £40,000 yn y gyllideb ar gyfer 2018/19 (£3,200 heb ei ddyrannu hyd yn hyn).***

c. ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

307/17 <u>Amcangyfrifon Blynyddol:</u>

a) Cyflwynodd y Clerc crynodeb o argymhellion y Pwyllgor Polisi a Chyllid parthed y ceisiadau am Grantiau Mawr a dderbyniwyd ar gyfer 2018/19.

Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgor Polisi a Chyllid a chymeradwyo'r Grantiau Mawr ar gyfer 2018/19 fel y maent yn ymddangos yn Atodiad 'A' o Gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 22^{ain} Ionawr.

b) Yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo'r Amcangyfrifon Blynyddol fel y maent yn ymddangos yn Atodiad 'B' o Gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 3^{ydd} Ionawr 2018.

Penderfynwyd cymeradwyo amcangyfrifon yr incwm a'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2018/19, yn unol â'r Atodlen honno.

c) Yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y tri dewis a gyflwynwyd i'r Pwyllgor parthed lefel archebiant 2018/19 ag argymhelliad y Pwyllgor a welir yng Nghofnod 275/17(d) o Gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 3ydd Ionawr 2018, i gymeradwyo codiad o 3% yn 2018/19 sy'n gyfartal a chynnydd o £1.12 am y flwyddyn i eiddo Band 'D' cyfartalog.

Yna cafwyd trafodaeth am ganran y cynnydd a argymhellwyd yn yr archebiant a mynegwyd pryder gan nifer o'r Aelodau am ganfyddiad y cyhoedd mewn perthynas ag adroddiadau am gynnydd o 3% er nad oedd yn gynnydd uchel iawn mewn telerau ariannol.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gytuno ar gynnydd o 2% yn archebiant eiddo Band 'D' ar gyfer 2018/19.

Cynigiwyd gwelliant a chafodd ei eilio, y dylid derbyn yr argymhelliad o gynnydd o 3%.

Penderfynwyd, trwy fwyafrif o 15 o blaid a 2 yn erbyn (un yn atal ei bleidlais), i gymeradwyo cynnydd o 3% yn archebiant 2018/19, sy'n gyfystyr a chodiad o £37.50 i £38.62 ar gyfer eiddo Band D cyfartalog . Byddai hyn yn golygu cyfanswm incwm o £435,300 ar gyfer 2018/19.

308/17 <u>Taliadau am Ddefnyddio Ystafelloedd:</u>

Cyflwynodd y Clerc manylion am y telerau presennol am gael defnyddio ystafelloedd a llungopïo a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a ddylid codi'r prisiau hyn am 2018/19.

Penderfynwyd cadw at y prisiau presennol ar gyfer 2018/19.

309/17 <u>Amserlen Cyfarfodydd:</u>

Cyflwynodd y Clerc amserlen drafft o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn drefol 2018/19 (i'w gadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol).

Penderfynwyd derbyn a nodi'r amserlen cyfarfodydd drafft ar gyfer 2018/19.

310/17 <u>Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae:</u>

Cyflwynodd y Clerc cofnodion cyfarfod diweddar a rhoddodd y Cynghorydd C. Hughes adroddiad byr ar lafar am iddo fod yn bresennol. Fe nodwyd bod y Cynghorydd P. Richards wedi cael ei ychwanegu at y rhestr dosbarthu e-bost ac felly bydd ef yn gallu rhoi adroddiad am gyfarfodydd yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes yn arbennig at Brif Gynllun Bae Colwyn fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod ar ddiwedd y mis.

Penderfynwyd derbyn y cofnodion a nodi adroddiad ar lafar y Cynghorydd Hughes.

311/17 <u>Materion yn Ymwneud a Recriwtio Meddygon Teulu:</u>

a) Fe nodwyd cynnwys e-bost cyfrinachol a anfonwyd at y Clerc gan Gyfarwyddwr Ardal Comisiynu Gofal Cychwynnol ar 3 Ionawr.

b) Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth i'w ystyried oddi wrth CIC parthed cynigion Llywodraeth Cymru i wella'r broses o gofrestru Meddygon Teulu yng Nghymru er mwyn dileu unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen. Fe nodwyd y byddai'n well gan y CIC Opsiwn 3 a'i bod yn ceisio cefnogaeth oddi wrth fudiadau eraill i gadarnhau'r ymateb hwn.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cyflwyno ymateb i'r papur ymgynghori i gefnogi dewis y CIC o Opsiwn 3, o gofio'r argyfwng sy'n bodoli yng Ngogledd Cymru i recriwtio Meddygon Teulu ac effaith hyn ar ein meddygfeydd lleol.

312/17 <u>Diwrnod yr Henoed 2018:</u>

Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth ynglŷn â Diwrnod yr Henoed sy'n cael ei drefnu gan David Jones A.S. a bydd yn cael ei gynnal yn Eglwys St Paul ar ddydd Gwener 16eg Mawrth.

Gofynnwyd i'r Aelodau a hoffent ystyried cael stondin y Cyngor Tref yn y digwyddiad (aelodau a staff ar ddyletswydd), yn dilyn llwyddiant y stondin Ffair Nadolig yn Llandrillo yn Rhos yn Rhagfyr.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc llogi stondin a gwahodd pob Cynghorydd i helpu ar y stondin am ran o'r diwrnod.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i daflenni cael eu hargraffu i gynnwys manylion cyswllt y Cynghorwyr (yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn Llandrillo yn Rhos).

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 22ND JANUARY 2017

PRESENT: The Mayor, Cllr J Pearson
Cllrs: Mrs G Baker; D Bradley; C Brockley; Mrs G Campbell; J Davies;
Mrs H Fleet; C Hughes; M A Jones; Mrs M Jones; A Kealey; A Khan; A Mason; C Matthews; M Pickard; P Richards; M Tasker; S Williams

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: County Cllr Brian Cossey

301/17 Apologies for Absence:

The Chairman welcomed everyone to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: B Barton; H Meredith; T Pearson; K Swindon; M Worth and also from County Cllr Cheryl Carlisle.

302/17 Announcements:

The Mayor gave a brief verbal announcement about two forthcoming Mayor's Charity Events: the Mayor's Variety Show, provisionally to be held on Wednesday 9th May at Theatr Colwyn, and a Charity Barn Dance, to be held at Colwyn Bay FC on Friday 16th March. Members were asked to note both dates in their diaries and support these events, if possible.

He also requested that all Members respond to two e-mails sent out recently by the Clerk, one in connection with a visit to the new Coed Pella office building in February and one about the proposed 'Visioning day'.

303/17 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests.

It was noted that several members of the Policy & Finance Committee had declared interests in respect of large grant applications (refer to the Minutes) and that these would need to be declared again if members wish to discuss any of the large grant applications/recommendations.

304/17 Visitors to the Council:

a) It was noted that Inspector Kelly Isaacs, NW Police, will be attending the next meeting to give an update on local policing matters.

b) The Chairman welcomed County Councillor Brian Cossey and invited him to give any report. Cllr Cossey thanked members for the opportunity to

address them and expressed his concern that other Colwyn County Cllrs had not taken up the opportunity to attend and improve the dialogue between our two sectors of local government. He then took the opportunity to inform members of the council about the budgetary decisions currently being considered by the County Council. Information was circulated about the forecast expenditure and income for 2018/19 and the need to identify a further £387,000 of savings, on top of the £10,196,000 already identified in November. This, together with an anticipated increase of 5% in Council tax, is needed to meet budgetary pressures due to nationally agreed pay increases, new business cases for statutory services and a reduction in the settlement from the Welsh Government (including loss of some specific grants).

A brief question and answer session followed Cllr Cossey's presentation, to include: concern about some household's struggling to afford the 5% increase; whether members allowances can be reduced (agreed nationally by an independent body); very low number of queries/objections to increases in previous years; statutory duty to provide some services, e.g. refuse collection, (but not at a 'platinum level' when a silver service would do); pay increases for senior staff.

Members were then invited to ask any general questions, not relating to the budget, and questions were asked about the recent bus service consultation and about the commencement of the installation of parking meters on the Promenade and the extent to which this will continue.

Cllr Cossey was then thanked for attending and giving an informative report and he retired from the meeting.

305/17 <u>Minutes</u>:

a) ***Resolved to receive, approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 4th December 2017.***

b) ***Resolved to <u>receive</u> a copy of the minutes of the following meetings:***
   - ***i) The General Purpose & Planning Committee held on 12th December 2017.***
   - ***ii) The Policy & Finance Committee held on 3rd January 2018 (Draft).***
   - ***iii) The General Purposes & Planning Committee held on 9th January 2018. (Draft)***

306/17 <u>Matters Arising from Those Minutes</u>:

a) **Min. 251/17(a) – Welsh Government Review of Town and Community Councils:**

The Clerk gave a brief verbal report, following a meeting with three of the Panel members held on 19th January. It was noted that members of the Review Panel, appointed by the Welsh Government, were visiting a number of different sized Councils in different locations across Wales to find out

more about the way they operate, what they are responsible for, whether seats were contested at the last elections, whether members come from diverse backgrounds, any innovative projects they may be involved in, to what extent we collaborate with neighbouring councils etc.

The Mayor, Cllr J Pearson, then gave a brief verbal report on the breakout sessions from the recent meeting of the North and Mid Wales Association of Local Councils, which had looked at some of the possible actions outlined in the 2015 White Paper, prior to the announcement of the year long review. It was noted that concern had been expressed about the threat of forced mergers and much fewer, larger councils and the impact this may have, especially on more rural areas.

Resolved to note the reports and await the next stage of the review.

b) Min. 253/17 – NW Community Health Council:

The Clerk submitted a response from the CHC about its role and members were asked to consider an offer to attend a future meeting.

Resolved to request that the Clerk invites a representative from the CHC to attend a future meeting of the Council.

c) ***Resolved to <u>endorse the recommendations</u> of the Committees, as detailed in the following Minutes:***

i) Min. 263/17(b)(iii) – New Benches: To approve a request for £820 from reserves to purchase two new benches for 'Tucky park', Church Road.

ii) Min. 281/17(a) – Small Grants: To approve payment to applicants A and C.

iii) Min.281/17(b) – Events Grants 2018/19: To approve the event grants, as detailed in Schedule D to the minutes, and retain a total budget of £40,000 for 2018/19 (£3,200 as yet unallocated).

d) ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

307/17 <u>Annual Estimates</u>:

a) The Clerk tabled a summary of the recommendations of the Policy and Finance Committee in respect of the Large Grants applications received for 2018/19.

Resolved to endorse the recommendations of the Policy & Finance Committee and approve the Large Grants for 2018/19, as detailed in Schedule 'A' to the Minutes of the Policy and Finance Committee meeting, held on 22nd January.

b) Members were then asked to consider and approve the Annual Estimates, as detailed in Schedule 'B' of the P&F Minutes of 3rd January 2018.

Resolved to approve the projected income and expenditure estimates for 2018/19, as per that Schedule.

c) Members were then asked to consider the three options presented to the Committee in respect of the level of precept to be charged for 2018/19 and the recommendation of the Committee, as detailed in Minute 275/17(d) of the Policy & Finance meeting held on 3rd January, to approve a 3% increase for 2018/19, which is equivalent to an increase of £1.12 for the year for an average Band 'D' property.
A debate ensued about the recommended percentage increase in the precept and concern was expressed by several members about the perception of the public in relation to reports of an increase of 3%, despite it being very little increase monetary terms.

It was proposed and seconded that a 2% increase in the Band 'D' precept be agreed for 2018/19.

An amendment was proposed and seconded that the recommendation of a 3% increase be accepted.

Resolved, by a majority of 15 in favour to 2 against (with one abstention), to approve an increase in the precept of 3% for 2018/19, equivalent to an increase from £37.50 to £38.62 for an average Band 'D' property. This would result in a total precept income of £435,300 for 2018/19.

308/17 <u>Room Hire Charges</u>:

The Clerk submitted details of the current charges for room hire and photocopying and members were asked to consider whether to apply any increase in these charges for 2018/19.

Resolved to retain the current level of charges for 2018'19.

309/17 <u>Timetable of Meetings</u>:

The Clerk submitted a Draft timetable of meetings for the 2018/19 municipal year (for ratification at the Annual Meeting).

Resolved to receive and note the draft meeting timetable for 2018/19.

310/17 <u>Bay Life Strategic Management Board:</u>

The Clerk submitted the minutes of a recent meeting and Cllr C Hughes gave a brief verbal report, as he had been in attendance. It was noted that Cllr P Richards had now been added to the e-mail circulation list and should be able to report on future meetings. Cllr Hughes made particular reference to the ongoing review of the Colwyn Bay masterplan, which is being presented to a

meeting at the end of this month.

Resolved to receive the minutes and note the verbal report from Cllr Hughes.

311/17 <u>GP Recruitment Issues:</u>

a) The content of a confidential e-mail from the Area Director of Primary Care and Commissioning, forwarded by the Clerk on 3 January, was noted.

b) The Clerk submitted, for consideration, correspondence from the CHC regarding proposals by the Welsh Government to improve the process for the registration of GPs in Wales to remove unnecessary bureaucracy. It was noted that the CHC's preferred option was Option 3 and that it was seeking support from other organisations to endorse this response.

Resolved to request that the Clerk submits a response to the consultation paper to support the CHC's preference for Option 3, given the current GP recruitment crises in North Wales and the impact this is having on our local surgeries.

312/17 <u>Older Persons' Day 2018:</u>

The Clerk submitted correspondence regarding an Older Person's day, which is being arranged by David Jones MP and will be held in St Paul's Church on Friday 16th March.

Members were asked to consider if they wished to have a Town Council stand at the event (with members and staff manning it), following the success of the stand at the Rhos on Sea Christmas fayre in December.

Resolved to request that the Clerk books a stand and that all Councillors are invited to assist on the stall for part of the day.

Further resolved to request that leaflets are printed (similar to those used in Rhos) to include Cllr contact details.

The meeting closed at 8:00 p.m.

……. Chairman